

PRIFYSGOL  
**Glyndŵr**  
Wrecsam

Wrexham  
**Glyndŵr**  
UNIVERSITY

Cyfarwyddwr Cyswllt,  
Gwasanaethau Gwybodaeth

**Pecyn Ymgeisydd**  
**Ionawr 2019**



## Cyflwyniad

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (PGW) yw prifysgol Gogledd Ddwyrain Cymru sy'n gwasanaethu ar gyfer y rhanbarth. Mae gweledigaeth a strategaeth PGW hyd at 2025 wedi'u hadeiladu ar bartneriaethau gyda myfyrwyr a staff, o fewn addysg, trwy gysylltiadau â diwydiant ac ymchwil cymhwysol arloesol. Rydym yn ymrwymedig i adeiladu prifysgol sy'n fywiog yn academiaidd a chynaliadwy yn ariannol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru ac sy'n bodloni anghenion myfyrwyr cenedlaethau'r dyfodol, yn tanategu llwyddiant economaidd rhanbarthol ac yn llwyfan cadarnhaol ar gyfer proffilio'r rhanbarth yn y byd ehangach. Gosodwyd yr amcanion hyn yng nghyd-destun gwerthoedd ac ethos PGW fel prifysgol gynhwysol sy'n cefnogi sail myfyrwyr amrywiol.

Mae llwyddiant yn sylfaenol i gefnogi economi leol fywiog ac rydym yn benderfynol o fod yn ffocws ar gyfer arloesedd, uwch sgiliau a datblygiad busnes yn y rhanbarth. Yn ogystal â chydweithrediadau rhanbarthol a chenedlaethol, mae ein partneriaethau eraill yn cynnwys prifysgolion mewn gwledydd eraill yn yr UE, Malaysia, Tsieina a Singapore, yn ogystal â sefydliadau cydweithwyr ledled Cymru a gweddill y DU.

### **Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth**

Yn dilyn rhaglen o adolygiadau ar draws yr holl feysydd Gwasanaeth Proffesiynol, mae'r 'Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth' newydd yn dod â Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Gwasanaethau'r Llyfrgell ynghyd i ddarparu lluo o adnoddau a gwasanaethau dysgu a gwybodaeth cyfoethog i gefnogi dysgu, addysgu ac ymchwil y Brifysgol. Yn ogystal, mae angen i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth fod yn barod i gefnogi darpariaeth o'r themâu cyfoethogi a amlinellir yn y Strategaeth Cefnogi Dysgu a Chyrhaeddiad Myfyrwyr a darparu gwasanaethau a chymwysiadau ar ddysgu modern a llwyfannau cefnogi.

Er mwyn bod yn 'addas at y diben' wrth fynd ymlaen, mae'r meysydd canlynol wedi'u sefydlu i ffurfio'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth:-

- Cymwysiadau ac Integreiddiad Busnes
- Cefnogaeth Isadeiledd a Thechnegol
- Mae Gweithrediadau'r Llyfrgell a Datblygiad Sgiliau yn cynnwys:-
  - Dysgu a Datblygiad Digidol
  - Adnodd Dysgu a Chyngor Sgiliau

Mae'r adliniad hwn yn dod â systemau busnes, rhwydweithio, isadeiledd, clyweledol, argraffu, cyfleusterau'r llyfrgell ac adnoddau dysgu ynghyd yn ffurfiol mewn Gwasanaethau Gwybodaeth integredig i gefnogi ei myfyrwyr, academyddion, ymchwilwyr a staff gwasanaethu proffesiynol. Ei nod yw darparu dull gweithredu mwy cydweithredol gan sicrhau bod gan PGW y cyfeiriad, isadeiledd a'r sgiliau sy'n ofynnol mewn sefydliad addysg uwch modern, arloesol a blaengar.

Fel rhan o'r adolygiad, adnabuwyd bod angen Strategaeth Ddigidol newydd sydd â'r nod i fod yn sail i fframwaith Strategol y Brifysgol a strategaethau trawsbynciol eraill a'u cefnogi drwy ateb y cwestiwn 'sut fydd eich sefydliad yn ffynnu mewn byd cynyddol ddigidol'? Er mwyn ymateb i hyn, bydd angen i'r adran fynd i'r afael â'r sgiliau a'r arbenigedd o fewn y tîm presennol a chyfoethogi'r galluoedd digidol ar draws y brifysgol.

Yn ogystal, gyda Champws 2025 wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar (strategaeth Ystadau ac Amgylchedd Dysgu newydd), daw hyn â chyfleoedd newydd i siapio Gwasanaethau Gwybodaeth ac archwilio ffyrdd newydd o

ddarparu'r profiad myfyrwyr. Mae lleoedd dysgu cymdeithasol a gefnogir gan dechnoleg a chyfrwng digidol

newydd yn allweddol i wella'r ddealltwriaeth o ansawdd ar draws y Brifysgol ac i greu amgylchedd newydd y bydd myfyrwyr eisiau dod i aros ynddi.

## Strategaeth Ddigidol

Blaenoriaeth allweddol i Brifysgol Glyndŵr Wrecsam (PGW) yw darparu Strategaeth Ddigidol newydd sy'n gosod y weledigaeth i ddarparu amgylchedd digidol sy'n cefnogi busnes y Brifysgol o ran darparu addysgu, dysgu ac ymchwil yn ogystal â helpu i hybu effeithiolrwydd gweithrediadol uwch.

Mae disgwyliadau'r Brifysgol ar gyfer y ddarpariaeth o dechnolegau a gwasanaethau digidol ar draws y sefydliad yn hanfodol i sicrhau y gallwn gefnogi ein myfyrwyr yn ddigonol ar eu taith dysgu a'u paratoi at lwyddiant yn eu gyrfaedd yn y dyfodol.

Yr gyrwyr allweddol a ragwelir ar gyfer y strategaeth Ddigidol fydd darparu amgylchedd sy'n cefnogi uchelgeisiau'r Brifysgol trwy ddarparu capasiti a gallu digidol i alluogi a chefnogi:

- 1. Dysgu ac addysgu ac ymchwil o ansawdd dda a thrawsffurfiol**
- 2. Prosesau busnes modern ac effeithiol**
- 3. Dysgu cydweithredol, gweithio a byw ar draws y brifysgol ac yn allanol, i'n myfyrwyr, staff a'n partneriaid**
- 4. Systemau a phrosesau diogel a rhwydd i'w defnyddio**

Mae'n bwysig bod ein dysgu, addysgu a'n hymchwil yn cael eu tanategu gan alluoedd, cyfathrebiadau a chysylltedd digidol ag adnoddau a phecynnau offer sy'n cefnogi gwaith a chyflawniadau ein myfyrwyr a'n staff. Gellir cyflawni'r weledigaeth o amgylchedd gweithio modern, y cyfoethogir taith dysgu myfyrwyr ac y grymusir staff ynddi trwy ddefnyddio offer cyfathrebu a chydweithio, drwy adeiladu ar ein hisadeiledd a'n hymarferion presennol. Bydd angen i ni hefyd ddatblygu diwylliant o esblygiad ac arloesedd digidol, a danategir gan lefelau priodol o lythrennedd digidol a datrysiadau digidol effeithiol.

Pe ystyrir 'digidol' gan bawb, ym mhopeth a wnawn, bydd hyn yn galluogi'r ddarpariaeth o Gampws 2025 cysylltiedig a bydd yn alinio â'r parthau canlynol o'r Weledigaeth a'r Strategaeth ar gyfer 2025.

1. Addysgu sy'n Ysbrydoli
2. Ymchwil sy'n Trawsffurfio
3. Ymgysylltiad sy'n Galluogi
4. Strwythur sy'n Cynnal

## **Strategaeth Ystadau – Campws 2025**

Rhan ganolog o weledigaeth a strategaeth gyfredol Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yw gwella profiad y myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys trawsffurfiad o'r amgylchedd dysgu mewn modd sy'n ffafriol i athroniaeth addysgu a dysgu'r brifysgol: creu lleoedd lle mae myfyrwyr eisiau bod ynddynt, lle gellir eu cefnogi yn eu taith datblygu bersonol a phroffesiynol, a lle mae ganddynt fynediad at gyfleusterau o'r radd flaenaf a fydd yn eu paratoi at y gweithle.

Bydd gan y Cyfarwyddwr Cyswllt gyfle i chwarae rôl flaengar yn natblygiad yr amgylchedd dysgu dan ein Strategaeth **Campws 2025** uchelgeisiol; cyfle cyffrous i gyflawni newid cam a fydd yn cefnogi darpariaeth strategaeth bresennol y brifysgol ar gyfer 2025, a strategaethau dilynol. Bydd datblygiad a gweithrediad **Campws 2025** yn mynd i'r afael â'r holl faterion yn gynhwysfawr, a bydd yn cynnig amgylchedd ffisegol yn unol ag ansawdd y profiad myfyrwyr yr ydym eisoes yn ei ddarparu mewn cymaint o ffyrdd eraill. Mae'n arloesol a bydd yn dod â PGW i reng flaen sefydliadau academiaidd, gan ymgorffori'r syniadau diweddaraf i'r addysgu a dysgu. Ar yr un pryd, mae'n strategaeth sy'n ddichonadwy a phragmatig, sy'n cynnig opsiynau sylweddol sy'n gyfatebol i gwmpas a maint PGW y gellir ei hariannu.

## Y RÔL

<b>Teitl y Swydd:</b>	Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Gwybodaeth
<b>Yn atebol i:</b>	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
<b>Ysgol/Cyfarwyddiaeth:</b>	Gweithrediadau

### Prif atebolrwydd:

Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth strategol i'r Gwasanaethau Gwybodaeth integredig a Llyfrgell y Brifysgol a chael cyfrifoldeb am reolaeth weithrediadol dros adran a chyllideb o faint sylweddol.

Adeiladu cysylltiadau cryfion ar draws y Brifysgol er mwyn creu diwylliant o arloesedd ar y cyd.

Arwain, datblygu a darparu Strategaeth Ddigidol ddylanwadol sy'n bodloni disgwyliadau Prifysgol uchelgeisiol ac sy'n cefnogi anghenion ystod amrywiol o ddysgwyr, athrawon, ymchwilwyr a gweinyddiaeth 21<sup>ain</sup> ganrif y Brifysgol yn effeithiol.

Bod yn aelod allweddol ar Fwrdd yr Is-ganghellor a chwarae rôl lawn yn sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni ei hamcanion a'i nodau strategol.

Hybu gwella gwasanaethau a manteision effeithlonrwydd a sicrhau bod y Brifysgol yn adnabod, gwerthuso, darparu ac yn ymelwa ar ddatblygiadau sydd wedi'u galluogi'n ddigidol a chyfoes mewn darpariaeth gwasanaethau gwybodaeth, cefnogi dysgu ac addysgu ac ymchwil, a meysydd busnes eraill.

### Tasgau allweddol

1. Darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth, a chydlynu datblygiad ac arwain y gweithrediad o strategaeth Ddigidol Prifysgol a gefnogir gan dargedau cynllunio a darparu clir.
2. Dechrau ac arwain datblygiad strategol y Brifysgol o ran cymhwysiad technoleg gwybodaeth i holl feysydd o weithgaredd y Brifysgol, gweithio mewn partneriaeth weithredol gyda staff academiaidd a phroffesiynol, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol.
3. Sicrhau y defnyddir isadeiledd gwybodaeth y Brifysgol yn effeithlon ac effeithiol.
4. Arwain y cyfoethgiad o ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i fyfyrwyr a staff trwy ymrwymiad i wellhad parhaus ac adborth cwsmeriaid.

5. Cyfrifol am yr holl agweddau ar reoli staff gan gynnwys dethol a recriwtio, hyfforddi a datblygu, ymgynghoriadau a chyfathrebiadau etc., arwain y tîm i gyrraedd dangosyddion perfformiad allweddol critigol.
6. Cyfarwyddo adnoddau dynol, ariannol a ffisegol Gwasanaethau Gwybodaeth i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol a'u bod yn gweithredu o fewn cyllidebau a osodwyd gan y Brifysgol.
7. Cyfrannu at fformwleiddiad cynlluniau strategol ar draws y Brifysgol sy'n gysylltiedig â datblygiad dysgu, addysgu, ymchwil ac isadeiledd i sicrhau yr ystyrir cyfraniad Gwasanaethau Gwybodaeth i gefnogi cenhadaeth ehangach y Brifysgol.
8. Bod ar flaen datblygiadau newydd yn y sectorau digidol a gwybodaeth a chynnig datblygiadau allweddol yn y maes Gwasanaethau Gwybodaeth i sicrhau gwellhad parhaus yn ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan Wasanaethau Gwybodaeth i'r Brifysgol.
9. Adeiladu a chynnal cysylltiadau effeithiol gydag aelodau eraill o Fwrdd yr Is-ganghellor, Penaethiaid Gwasanaethau Proffesiynol a staff academaidd uwch i sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth yn parhau'n ymatebol i anghenion bob rhan o'r Brifysgol.
10. Cymryd rhan mewn rhwydweithiau Cymraeg a rhwydweithiau ar draws y DU fel sy'n briodol er mwyn cadw presenoldeb a chynrychioli'r Brifysgol yn allanol.
11. Bod yn ddirprwy i Gyfarwyddwr Gweithrediadau yn ôl yr angen.

## **Nodweddion Arbennig**

Gall fod angen cefnogaeth gyda'r nos, ar y penwythnosau neu y tu allan i oriau swyddfa o bryd i'w gilydd. Felly mae angen hyblygrwydd gydag oriau gweithio.

## **Amrywiol**

Ymddwyn mewn modd proffesiynol bob amser a chynnal cyfrinachedd gwybodaeth.

Cynnal ymwybyddiaeth briodol o bolisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol a gweithio'n effeithiol oddi mewn iddynt, cymryd rhan mewn prosesau priodol, h.y. Adolygiad Datblygu Perfformiad, datblygiad proffesiynol parhaus.

Cefnogi polisi Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol drwy weithio'n ddiogel a dilyn y gweithdrefnau a chodau ymarfer a ddeilliwyd i'ch diogelu chi ac eraill.

Parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb lle bo hynny'n angenrheidiol.

Glynu wrth bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol ar gyfer staff a myfyrwyr a gweithredu yn unol â Deddf Gydraddoldeb 2010.

Perfformio dyletswyddau eraill yn achlysurol nad ydynt yn cael eu cynnwys uchod ond a fydd yn gyson â'r rôl a'r radd.

## Manyleb Person

Meini Prawf Dethol					
Priodoleddau	Eitem	Meini Prawf Perthnasol	Dull Adnabod	Graddio	
1	Sgiliau a Galluoedd	1.1	Gallu arddangos gweledigaeth, angerdd a gallu profedig i ddarparu arweinyddiaeth, rheolaeth, ysbrydoliaeth, cymhelliant a hwb i dîm mawr o unigolion proffesiynol	Ff/C	H
			Gallu arddangos dealltwriaeth glir o'r rôl strategol o Wasanaethau Gwybodaeth a gwella isadeiledd TG o fewn amgylchedd y Brifysgol	Ff/C/Rh	H
			Gallu meddwl yn strategol, yn greadigol a dadansoddol	Ff/C	H
			Gallu trosi gweledigaeth yn strategaeth a llwyddiant	Ff/C	H
			Credadwyaeth broffesiynol o lefel uchel gyda'r sgiliau dylanwadu i ddatblygu cynghreiriau a phartneriaethau cryfion yn fewnol ac allanol trwy rwydweithio, adeiladu gwleidyddol a pherthnasoedd	Ff/C	H
			Gallu arddangos dealltwriaeth glir o Dechnolegau Gwybodaeth, gan gynnwys dysg a gyfoethogir yn ddigidol yn ogystal â swyddogaethau'r llyfrgell	Ff/C	H
			Gallu cyfathrebu a chydlynu sawl tasg ar y pryd mewn sefydliad cymhleth a dynamig, gan sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau mewnol ac allanol	Ff/C	H
			Sgiliau sefydliadol a threfnu cryfion	Ff/C	H
			Gallu i ysgogi eraill	Ff/C	H
			Gallu gweithio ar dasgau'n annibynnol, yn ogystal â gweithio'n effeithiol mewn tîm	Ff/C	H
	Gallu adnabod problemau ac awgrymu datrysiadau a gweithrediadau newydd	Ff/C	H		
	Gallu cynnal cyfrinachedd	Ff/C	H		
2	Gwybodaeth Gyffredinol ac Arbenigol	2.1	Gwybodaeth drylwyr o feincnodau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer isadeiledd TG i fesur darpariaeth sy'n addas at y diben yn y 21 <sup>ain</sup> ganrif mewn Prifysgol flaengar Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau gweithredu	Ff/C	H

			blaengar ac arloesol i addysgeg addysg uwch.	Ff/C	H
			Profiad o ddatblygu strategaeth ar lefel uwch	Ff/C	H
3	Addysg a Hyfforddiant	3.1	Addysg at lefel gradd neu gyfwerth gyda chefnidir cryf o gyflawniad ym maes eang Gwasanaethau Gwybodaeth, yn ddelfrydol gyda gwybodaeth o ddarpariaeth gwasanaethau'r llyfrgell a thechnoleg gwybodaeth	Ff	H
			Cymhwyster Ôl-radd neu gymhwyster proffesiynol perthnasol.	Ff	D
4	Profiad Perthnasol	4.1	Cefndir dangosadwy o brofiad rheoli ac arwain a enillwyd ar lefel uwch mewn strwythur sefydliadol mawr a chymhleth	Ff/C	H
			Profiad sylweddol o arwain a rheoli swyddogaeth gwybodaeth a thechnoleg systemau mewn sefydliad mawr, cymhleth ac amrywiol	Ff/C	H
			Profiad a gallu mewn rheolaeth ariannol	Ff/C	H
5	Gofynion Arbennig	5.1	Profiad o weithio mewn Addysg Uwch ar lefel uwch	Ff	D
			Gwybodaeth o'r materion sy'n wynebu Addysg Uwch	Ff/C	D
			Sgiliau cyfathrebu rhagorol	C	H
			Gallu adeiladu cysylltiadau yn naturiol gyda'r difrifoldeb, sgiliau a'r hyder i rwydweithio a thrafod ar lefel uwch yn y Brifysgol a'r tu allan iddi	C	H
			Meddwl yn ehangach gyda'r gallu i ddatblygu strategaethau creadigol a phriodol i ymgysylltu â pherthnasau a'u hadeiladu	Ff/C	H
			Sgiliau cryfion wrth wneud penderfyniad annibynnol ac mewn grŵp	Ff/C	H
			Lefel uchel o fenter	Ff/C	
			Rhoi sylw i fanylion, brwdfrydig ac ymrwymiad i safonau proffesiynol uchel ym mhob maes gwaith	Ff/C	D
			Siarad Cymraeg	Ff/C	



## Sut i Wneud Cais

Am ragor o wybodaeth ar sut i wneud cais, ewch i [www.minervasearch.com/glyndwr](http://www.minervasearch.com/glyndwr).

Anfonwch lythyr eglurhaol a CV i [glyndwr@minervasearch.com](mailto:glyndwr@minervasearch.com) dim hwyrach na 10 Chwefror 2019.

## Manylion Cyswllt

Gallwch gysylltu â Minerva fel a ganlyn:

Rebecca Jones  
Kellie Horner  
Ben Tucker

Pe dymunech gael sgwrs, cysylltwch â ni ar [glyndwr@minervasearch.com](mailto:glyndwr@minervasearch.com)